

Y BEIBL
CYMRAEG NEWYDD
Argraffiad Diwygiedig


CYNNWYS

| | |
|-----------------------------------|----------------|
| | <i>Tudalen</i> |
| Rhagair i Argraffiad 1988 | iii |
| Rhagair i'r Argraffiad Diwygiedig | v |
| Mapiau | ix |
| Rhagarweiniad Cyffredinol | xi |

YR HEN DESTAMENT

| | |
|---------------------------------------|--------|
| Rhagarweiniad i'r Hen Destament | xxix |
| Mesurau a Phwysau yn yr Hen Destament | xxxiii |

| <i>Enw'r Llyfr</i> | <i>Talfyriad</i> | |
|----------------------------|------------------|-----|
| Llyfr Genesis | Gen. | 1 |
| Llyfr Exodus | Ex. | 49 |
| Llyfr Lefiticus | Lef. | 90 |
| Llyfr Numeri | Num. | 119 |
| Llyfr Deuteronomium | Deut. | 160 |
| Llyfr Josua | Jos. | 197 |
| Llyfr y Barnwyr | Barn. | 220 |
| Llyfr Ruth | Ruth | 245 |
| Llyfr Cyntaf Samuel | 1 Sam. | 248 |
| Ail Llyfr Samuel | 2 Sam. | 280 |
| Llyfr Cyntaf y Brenhinoedd | 1 Bren. | 308 |
| Ail Llyfr y Brenhinoedd | 2 Bren. | 338 |
| Llyfr Cyntaf y Cronicl | 1 Cron. | 367 |
| Ail Llyfr y Cronicl | 2 Cron. | 394 |
| Llyfr Esra | Esra | 428 |
| Llyfr Nehemeia | Neh. | 437 |
| Llyfr Esther | Esth. | 451 |
| Llyfr Job | Job | 459 |
| Llyfr y Salmu | Salm. | 490 |
| Llyfr y Diarhebion | Diar. | 576 |
| Llyfr y Pregethwr | Preg. | 605 |
| Caniad Solomon | Can. | 613 |
| Llyfr Eseia | Es. | 619 |
| Llyfr Jeremeia | Jer. | 683 |
| Llyfr Galarnad | Galar. | 745 |
| Llyfr Eseciel | Esec. | 752 |
| Llyfr Daniel | Dan. | 803 |
| Llyfr Hosea | Hos. | 817 |
| Llyfr Joel | Jl. | 827 |
| Llyfr Amos | Am. | 831 |
| Llyfr Obadeia | Ob. | 838 |
| Llyfr Jona | Jon. | 840 |
| Llyfr Micha | Mic. | 842 |
| Llyfr Nahum | Nah. | 848 |
| Llyfr Habacuc | Hab. | 850 |
| Llyfr Seffaneia | Seff. | 853 |
| Llyfr Haggai | Hag. | 856 |
| Llyfr Sechareia | Sech. | 858 |
| Llyfr Malachi | Mal. | 867 |



MESURAU A PHWYSAU YN YR HEN DESTAMENT

Ni cheisiwyd, yn y testun nac yn y troednodiadau, drosi mesurau Hebreig i fesurau cyfwerth yn y dull metrig. Gwaith anodd, onid amhosibl, yw cyfleu'n gwbl bendant union werth y mesurau y cyfeirir atynt yn yr Hen Destament, gan eu bod yn amrywio o le i le ac o bryd i'w gilydd. Sylwer hefyd y defnyddir dau fesur 'cufydd', y naill yn gyffredin a'r llall yn hen fesur (2 Cron.3:3); yr oedd hefyd ddau 'mina' a dau 'sicl', y naill yn ôl 'pwysau'r marchnatwyr' (Gen.23:16) a'r llall yn 'sicl y cysegr' (Ex.30:13). Gan fod sawl dull o bennu cyfwerthedd, ceir bod amrywiaeth mawr yn y rhestrau sydd ar gael. O gofio mai bras amcan yn unig sy'n bosibl, lluniwyd y rhestr hon yn bennaf ar sail yr un a roddir yn *The Oxford Companion to the Bible* (1993). Cynhwysir un cyfeiriad beiblaidd gyda phob un o'r mesurau a phwysau.

1. Mesurau Llinellol

| | | | |
|-----------|--|-------------|------------|
| modfedd | lled bys | 1 Bren.7:15 | 0.019 medr |
| dyrnffedd | cledr llaw (4 bys) | Esec.40:5 | 0.074 medr |
| rhychwant | blaen y bawd i flaen y bys bach (3 dyrnffedd) | 1 Sam.17:5 | 0.221 medr |
| cufydd | o'r penelin i flaen y bysedd (6 dyrnffedd) | Barn.3:16 | 0.443 medr |
| cufydd | yr hen fesur (7 dyrnffedd) | 2 Cron.3:3 | 0.520 medr |

2. Mesurau Cynhwysedd Sych

| | | | |
|----------------------------|-------------------|-------------|------------|
| pwys (Hebraeg <i>qab</i>) | | 2 Bren.6:15 | 1.3 litr |
| omer | degfed ran o effa | Ex.16:32 | 2.3 litr |
| hobaid | 3 omer a hanner | 1 Sam.25:18 | 7.7 litr |
| effa | 10 omer | Ex.16:36 | 22.9 litr |
| corus | 10 effa | 1 Bren.4:22 | 229.7 litr |
| homer | 10 effa | Esec.45:11 | 229.7 litr |

3. Mesurau Cynhwysedd Gwlyb

| | | | |
|-------|---------|------------|------------|
| log | | Lef.14:10 | 0.32 litr |
| hin | 12 log | Num.15:7 | 3.829 litr |
| bath | 6 hin | Esec.45:14 | 23 litr |
| corus | 10 bath | Esec.45:14 | 230 litr |

4. Pwysau

| | | | |
|--------|--------------------|--------------|-------------|
| gera | | Esec.45:12 | 0.57 gram |
| beca | 10 gera (1/2 sicl) | Ex.38:26 | 5.71 gram |
| sicl | 20 gera | Lef.27:25 | 11.42 gram |
| mina | 50 sicl | 1 Bren.10:17 | 571.2 gram |
| mina | 60 sicl | Esec.45:12 | 582.62 gram |
| talent | 60 mina | Ex.38:25 | 34.3 cgr |

5. Arian

Pwysau o fetalau a ddefnyddid yn arian yng nghyfnod yr Hen Destament, ac felly defnyddir 'sicl' (2 Bren.15:20) a 'talent' (1 Bren. 9:14) i ddnodi pwysau o aur neu arian a ddefnyddid i farchnata. Mewn rhannau sy'n perthyn i gyfnod diweddar yn llenyddiaeth yr Hen Destament cyfeirir at ddau ddarn arall o arian:

| | | | |
|---------|--|-------------|----------|
| daric | | 1 Cron.29:7 | 8 gram |
| dracmon | | Neh.7:70 | 4.4 gram |

Joseff yn Tawelu Ofnau ei Frodyr

¹⁵ Wedi marw eu tad, daeth ofn ar frodyr Joseff, a dywedasant, "Efallai y bydd Joseff yn ein casáu ni, ac yn talu'n ôl yr holl ddrwg a wnaethom iddo." ¹⁶ A daethant at* Joseff, a dweud, "Rhoddodd dy dad orchymyn fel hyn cyn marw, ¹⁷ 'Dywedwch wrth Joseff, "Maddau yn awr ddrygioni a phechod dy frodyr, oherwydd gwnaethant ddrwg i ti." ' Yn awr, maddau ddrygioni gweision Duw dy dad." Wylodd Joseff wrth iddynt siarad ag ef. ¹⁸ Yna daeth ei frodyr a syrthio o'i flaen, a dweud, "Yr ydym yn weision i ti." ¹⁹ Ond dywedodd Joseff wrthynt, "Peidiwch ag ofni. A wyf fi yn lle Duw? ²⁰ Yr oeddech chwi yn bwriadu drwg yn f'erbyn; ond trodd Duw y bwriad yn ddaioni, er mwyn gwneud yr hyn a welir heddiw, cadw'n fyw llawer o bobl. ²¹ Felly peidiwch ag ofni; fe'ch

cynhaliach chwi a'ch rhai bach." A chysurodd hwy, a siarad yn dynner wrthynt.

Marw Joseff

²² Arhosodd Joseff a theulu ei dad yn yr Aifft. Bu Joseff fyw am gant a deg o flynyddoedd, ²³ a gwelodd blant Effraim hyd y drydedd genhedlaeth. Ar liniau Joseff hefyd y maethwyd plant Machir fab Manasse. ²⁴ Yna dywedodd Joseff wrth ei frodyr, "Yr wyf yn marw; ond y mae Duw yn sicr o ymweld â chwi a'ch dwyn i fyny o'r wlad hon i'r wlad a addawodd trwy lw i Abraham, Isaac a Jacob." ²⁵ A gwnaeth Joseff i feibion Israel dyngu llw. Dywedodd, "Y mae Duw yn sicr o ymweld â chwi; ewch chwithau â'm hesgyrn i fyny oddi yma." ²⁶ Bu Joseff farw yn gant a deg oed, ac wedi iddynt ei eneinio, rhoesant ef mewn arch yn yr Aifft.

50:16 Felly Groeg. Hebraeg, *A gorchymynasant.*

LLYFR

EXODUS

Gormesu'r Israeliaid yn yr Aifft

1 Dyma enwau meibion Israel a aeth i'r Aifft gyda Jacob, pob un gyda'i deulu: ² Reuben, Simeon, Lefi a Dan, ³ Issachar, Sabulon a Benjamin, ⁴ Gad a Nafftali, Gad ac Aser. ⁵ Yr oedd gan Jacob ddeg a thrigain o ddisgynyddion; yr oedd Joseff eisoes yn yr Aifft. ⁶ Yna bu farw Joseff a phob un o'i frodyr a'r holl genhedlaeth honno. ⁷ Ond yr oedd plant Israel yn ffrwythlon ac yn amlhau'n ddifawr, ac aethant mor gryf a niferus nes bod y wlad yn llawn ohonynt.

⁸ Yna daeth brenin newydd i deyrnasu ar yr Aifft, un nad oedd yn gwybod am Joseff. ⁹ Dywedodd ef wrth ei bobl,

"Edrychwch, y mae pobl Israel yn fwy niferus ac yn gryfach na ni. ¹⁰ Rhaid inni fod yn ddoeth wrth eu trin, rhag iddynt gynyddu, a phe deuai rhyfel, iddynt ymuno â'n gelynyion i ymladd yn ein herbyn, a dianc o'r wlad." ¹¹ Felly, gosodwyd meistri gwaith i oruchwylio'r bobl ac i'w llethu â beichiau trymion. Hwy fu'n adeiladu Pithom a Rameses, dinasoedd ar gyfer ystordai Pharo. ¹² Ond po fwyaf y caent eu gorthrymu, mwyaf yn y byd yr oeddent yn amlhau ac yn cynyddu; a daeth yr Eifftiaid i'w hofni. ¹³ Am hynny, gorfodwyd i'r Israeliaid weithio dan ormes, ¹⁴ a gwnaeth yr Eifftiaid eu bywyd yn chwerve trwy eu gosod i lafurio'n galed â chlai a

phriddfeini, a gwneud pob math o waith yn y meysydd. Yr oedd y cwbl yn cael ei wneud dan ormes.

¹⁵ Yna dywedodd brenin yr Aifft wrth Siffra a Pua, dwy fydwraig yr Hebreaid, ¹⁶ "Pan fyddwch yn gweini ar wragedd yr Hebreaid, sylwch ar y plentyn a enir: os mab fydd, lladdwch ef; os merch, gadewch iddi fyw." ¹⁷ Ond yr oedd y bydwragedd yn parchu Duw; ac ni wnaethant yr hyn a orchynnodd brenin yr Aifft, ond gadawsant i'r bechgyn fyw. ¹⁸ Galwodd brenin yr Aifft y bydwragedd ato a gofyn, "Pam y gwnaethoch hyn, a gadael i'r bechgyn fyw?" ¹⁹ Dywedasant hwythau wrth Pharo, "Nid yw gwragedd yr Hebreaid yn debyg i wragedd yr Eifftiaid, oherwydd y maent hwy yn fywiog ac yn esgor cyn i'r fydwraig gyrraedd." ²⁰ Am hynny bu Duw yn dda wrth y bydwragedd; a chynyddodd y bobl a dod yn rymus iawn. ²¹ Am fod y bydwragedd yn parchu Duw, cawsant hwy eu hunain deuluoedd. ²² Yna rhoddodd Pharo orchymyn i'r holl bobl a dweud, "Taflwch i'r Neil bob mab a enir i'r Hebreaid*, ond gadewch i bob merch gael byw."

Genedigaeth Moses

2 Priododd gŵr o dylwyth Lefi ag un o ferched Lefi. ² Bechiogodd hithau ac esgor ar fab, a phan welodd ei fod yn dlws, fe'i cuddiodd am dri mis. ³ Ond gan na allai ei guddio'n hwy, cymerodd gawell wedi ei wneud o lafrwyn a'i ddwbio â chlai a phyg; rhoddodd y plentyn ynddo a'i osod ymysg yr hesg ar lan y Neil. ⁴ Yr oedd chwaer y plentyn yn sefyll nepell oddi wrtho er mwyn cael gwybod beth a ddigwyddai iddo. ⁵ Daeth merch Pharo i ymdrochi yn yr afon tra oedd ei morynion yn cerdded ar y lan, a phan welodd y cawell yng nghanol yr hesg, anfonodd un ohonynt i'w nôl. ⁶ Wedi iddi ei agor, fe welodd y plentyn, ac yr oedd y bachgen yn wylo. Tosturiodd hithau wrtho a dweud, "Un o blant yr Hebreaid yw hwn." ⁷ Yna gofynnodd chwaer y plentyn i ferch Pharo, "A gaf fi fynd i chwilio am

famaeth o blith gwragedd yr Hebreaid, iddi fagu'r plentyn iti?" ⁸ Atebodd merch Pharo, "Dos." Felly aeth y ferch ymaith a galw mam y plentyn. ⁹ Dywedodd merch Pharo wrth honno, "Cymer y plentyn hwn a'i fagu imi, ac fe roddaf finnau dâl iti." Felly cymerodd y wraig y plentyn a'i fagu. ¹⁰ Wedi i'r plentyn dyfu i fyny, aeth ag ef yn ôl at ferch Pharo. Mabwysiadodd hithau ef a'i enwi'n Moses*, oherwydd iddi ddweud, "Tynnais ef allan* o'r dŵr."

Moses yn Ffoi i Midian

¹¹ Un diwrnod, wedi i Moses dyfu i fyny, aeth allan at ei bobl ac edrych ar eu beichiau. Gwelodd Eifftiwr yn taro Hebrëwr, un o'i frodyr, ¹² ac wedi edrych o'i amgylch a gweld nad oedd neb yno, lladdodd Moses yr Eifftiwr a'i guddio yn y tywod. ¹³ Pan aeth allan drannoeth a gweld dau Hebrëwr yn ymladd â'i gilydd, gofynnodd i'r un oedd ar fai, "Pam yr wyt yn taro dy gyfaill?" ¹⁴ Atebodd yntau, "Pwy a'th benododd di yn bennaeth ac yn farnwr arnom? A wyt am fy lladd i fel y lleddaist yr Eifftiwr?" Daeth ofn ar Moses o sylweddoli fod y peth yn hysbys.

¹⁵ Pan glywodd Pharo am hyn, ceisiodd ladd Moses, ond ffodd ef oddi wrtho a mynd i fyw i wlad Midian; ac yno eisteddodd i lawr yn ymyl pydew. ¹⁶ Yr oedd gan offeiriad Midian saith o ferched, a daethant i godi dŵr er mwyn llenwi'r cafnau a dyfrhau defaid eu tad. ¹⁷ Daeth bugeiliaid heibio a'u gyrru oddi yno, ond cododd Moses ar ei draed a'u cynorthwyo i ddyfrhau eu praidd. ¹⁸ Pan ddaeth y merched at Reuel eu tad, gofynnodd, "Sut y daethoch yn ôl mor fuan heddiw?" ¹⁹ Dywedasant hwythau, "Eifftiwr a ddaeth i'n hamddiffyn rhag y bugeiliaid, a chodi dŵr i ddyfrhau'r praidd." ²⁰ Yna gofynnodd yntau iddynt, "Ple mae'r dyn? Pam yr ydych wedi ei adael ar ôl? Galwch arno, iddo gael tamaid i'w fwyta." ²¹ Cytunodd Moses i aros gyda'r gŵr, a rhoddodd yntau ei ferch Seffora yn wraig iddo. ²² Esgorodd hithau ar fab, a galwodd Moses ef

2:10 Hebraeg, *Mosheh*.

2:10 Hebraeg, *Mashah*.

yn Gersom, oherwydd dywedodd, "Dieithryn* ydwyf mewn gwlad ddieithr."

²³ Yn ystod yr amser maith hwn, bu farw brenin yr Aiff. Ond yr oedd pobl Israel yn dal i riddfan oherwydd eu caethiwed, ac yn gweiddi am gymorth, a daeth eu gwaedd o achos eu caethiwed at Dduw. ²⁴ Clywodd Duw eu cwynfan, a chofiodd ei gyfamod ag Abraham, Isaac a Jacob; ²⁵ edrychodd ar bobl Israel ac ystyriodd eu cyflwr.

Duw yn Galw Moses

3 Yr oedd Moses yn bugeilio defaid ei dad-yng-nghyfraith Jethro, offeiriad Midian, ac wrth iddo arwain y praidd ar hyd cyrion yr anialwch, daeth i Horeb, mynydd Duw. ² Yno ymddangosodd angel yr ARGLWYDD iddo mewn fflam dân o ganol perth. Edrychodd yntau a gweld y berth ar dân ond heb ei difa. ³ Dywedodd Moses, "Yr wyf am droi i edrych ar yr olygfa ryfedd hon, pam nad yw'r berth wedi llosgi." ⁴ Pan welodd yr ARGLWYDD ei fod wedi troi i edrych, galwodd Duw arno o ganol y berth, "Moses, Moses." Atebodd yntau, "Dyma fi." ⁵ Yna dywedodd Duw, "Paid â dod ddim nes; tyn dy esgidiau oddi am dy draed, oherwydd y mae'r llecyn yr wyt yn sefyll arno yn dir sanctaidd." ⁶ Dywedodd hefyd, "Duw dy dadau* wyf fi, Duw Abraham, Duw Isaac a Duw Jacob." Cuddiodd Moses ei wyneb, oherwydd yr oedd arno ofn edrych ar Dduw.

⁷ Yna dywedodd yr ARGLWYDD, "Yr wyf wedi gweld adfyd fy mhobl yn yr Aiff a chlywed eu gwaedd o achos eu meistri gwaith, a gwn am eu doluriau." ⁸ Yr wyf wedi dod i'w gwaredu o law'r Eifftiaid, a'u harwain o'r wlad honno i wlad ffrwythlon ac eang, gwlad yn llifeirio o laeth a mêl, cartref y Canaaneaid, Hethiaid, Amoriaid, Peresiaid, Hefiaid a Jebusiaid. ⁹ Yn awr y mae gwaedd pobl Israel wedi dod ataf, ac yr wyf wedi gweld fel y bu'r Eifftiaid yn eu gorthrymu. ¹⁰ Tyrdd, yr wyf yn dy anfon at Pharo er mwyn iti arwain fy mhobl, yr Israeliaid,

allan o'r Aiff." ¹¹ Ond gofynnodd Moses i Dduw, "Pwy wyf fi i fynd at Pharo ac arwain pobl Israel allan o'r Aiff?" ¹² Dywedodd yntau, "Byddaf fi gyda thi; a dyma fydd yr arwydd mai myfi sydd wedi dy anfon: wedi iti arwain y bobl allan o'r Aiff, byddwch yn addoli Duw ar y mynydd hwn."

¹³ Yna dywedodd Moses wrth Dduw, "Os af at bobl Israel a dweud wrthynt, 'Y mae Duw eich hynafiaid wedi fy anfon atoch', beth a ddywedaf wrthynt os gofynnant am ei enw?" ¹⁴ Dywedodd Duw wrth Moses, "Ydwyf yr hyn ydwyf. Dywed hyn wrth bobl Israel, 'Ydwyf sydd wedi fy anfon atoch.'" ¹⁵ Dywedodd Duw eto wrth Moses, "Dywed hyn wrth bobl Israel, 'Yr ARGLWYDD*, Duw eich tadau, Duw Abraham, Duw Isaac a Duw Jacob sydd wedi fy anfon atoch.' Dyma fydd fy enw am byth, ac fel hyn y cofir amdanaf gan bob cenhedlaeth." ¹⁶ Dos, a chynnull ynghyd henuriaid Israel, a dywed wrthynt, 'Y mae'r ARGLWYDD, Duw eich tadau, Duw Abraham, Isaac a Jacob, wedi ymddangos i mi a dweud: Yr wyf wedi ymweld â chwi ac edrych ar yr hyn a wnaed i chwi yn yr Aiff,' ¹⁷ ac yr wyf wedi penderfynu eich arwain allan o adfyd yr Aiff i wlad y Canaaneaid, Hethiaid, Amoriaid, Peresiaid, Hefiaid a Jebusiaid, gwlad yn llifeirio o laeth a mêl.' ¹⁸ Bydd henuriaid Israel yn gwrando arnat; dos dithau gyda hwy at frenin yr Aiff a dweud wrtho, 'Y mae'r ARGLWYDD, Duw'r Hebreaid, wedi ymweld â ni; yn awr gad inni fynd daith dridiau i'r anialwch er mwyn inni aberthu i'r ARGLWYDD ein Duw.' ¹⁹ Ond yr wyf yn gwybod na fydd brenin yr Aiff yn caniatáu i chwi fynd oni orfodir ef â llaw gadarn. ²⁰ Felly, estynnaf fy llaw a tharo'r Eifftiaid â'r holl ryfeddodau a wnaef yn eu plith; wedi hynny, bydd yn eich gollwng yn rhydd. ²¹ Gwnaf i'r Eifftiaid edrych yn ffafriol ar y bobl hyn, a phan fyddwch yn ymadael, nid ewch yn waglaw, ²² oherwydd bydd pob gwraig yn gofyn i'w chymdoges neu i unrhyw un yn ei thŷ am dlysau o arian ac o aur, a dillad. Gwisgwch hwy am eich meibion a'ch merched, ac ysbeiliwch yr Aiff."

2:22 Hebraeg, ger.

3:6 Felly Groeg. Hebraeg, dad.

3:15 Neu, Yr hwn sydd.

Duw yn Rhoi Gallu i Moses

4 Yna atebodd Moses, "Ni fyddant yn fy nghredu nac yn gwrandao arnaf, ond byddant yn dweud, 'Nid yw'r ARGLWYDD wedi ymddangos i ti.'" ² Dywedodd yr ARGLWYDD wrtho, "Beth sydd gennynt yn dy law?" Atebodd yntau, "Gwialen." ³ Yna dywedodd yr ARGLWYDD, "Tafll hi ar lawr." Pan daflodd hi ar lawr, trodd yn sarff, a chiliodd Moses oddi wrthi. ⁴ Ond dywedodd yr ARGLWYDD wrtho, "Estyn dy law a gafael yn ei chynffon." Estynnodd yntau ei law a gafael ynnddi, a throdd yn wialen yn ei law. ⁵ "Gwna hyn," meddai, "er mwyn iddynt gredu bod yr ARGLWYDD, Duw eu tadau, Duw Abraham, Duw Isaac a Duw Jacob wedi ymddangos iti." ⁶ Yna dywedodd yr ARGLWYDD wrtho, "Rho dy law yn dy fynwes." Rhoes yntau ei law yn ei fynwes, a phan dynnodd hi allan, yr oedd ei law yn wahanglwyfus ac yn wyn fel yr eira. ⁷ Yna dywedodd Duw, "Rho hi'n ôl yn dy fynwes." Rhoes yntau ei law yn ôl yn ei fynwes, a phan dynnodd hi allan, yr oedd mor iach â gweddill ei gorff. ⁸ "Os na fyddant yn dy gredu nac yn ymateb i'r arwydd cyntaf," meddai'r ARGLWYDD, "hwyrach y byddant yn ymateb i'r ail arwydd. ⁹ Ond os na fyddant yn ymateb i'r naill arwydd na'r llall, nac yn gwrandao arnat, cymer ddŵr o'r Neil a'i dywallt ar y sychdir, a bydd y dŵr a gymeri o'r afon Neil yn troi'n waed ar y tir sych."

¹⁰ Dywedodd Moses wrth yr ARGLWYDD, "O f'Arglwydd, ni fŷm erioed yn ŵr huawdl, nac yn y gorffennol nac er pan ddechreuais lefaru wrth dy was; y mae fy lleferydd yn araf a'm tafod yn drwm." ¹¹ Yna dywedodd yr ARGLWYDD wrtho, "Pwy a roes enau i feidrolyn? Pwy a'i gwna yn fud neu'n fyddar? Pwy a rydd iddo olwg, neu ei wneud yn ddall? Onid myfi, yr ARGLWYDD?" ¹² Yn awr, dos, rhof help iti i lefaru, a'th ddysgu beth i'w ddweud." ¹³ Ond dywedodd ef, "O f'Arglwydd, anfon pwy bynnag arall a fynni." ¹⁴ Digiodd yr ARGLWYDD wrth Moses a dywedodd, "Onid Aaron y Lefiaid yw dy frawd? Gwn y gall ef siarad yn huawdl; y mae ar ei ffordd i'th gyfarfod, a bydd yn falch o'th weld.

¹⁵ Llefara di wrtho a gosod y geiriau yn ei enau, a rhof finnau help i'r ddau ohonoch i lefaru, a'ch dysgu beth i'w wneud. ¹⁶ Bydd ef yn lefaru wrth y bobl ar dy ran; bydd ef fel genau iti, a byddi dithau fel Duw iddo yntau. ¹⁷ Cymer y wialen hon yn dy law, oherwydd trwyddi hi y byddi'n gwneud yr arwyddion."

Moses yn Dychwelyd i'r Aifft

¹⁸ Dychwelodd Moses at Jethro ei dad-ying-nghyfraith a dweud wrtho, "Gad imi fynd yn ôl at fy mhobl sydd yn yr Aifft i weld a ydynt yn dal yn fyw." Dywedodd Jethro wrtho, "Rhwydd hynt iti." ¹⁹ Yr oedd yr ARGLWYDD wedi dweud wrth Moses yn Midian, "Dos yn ôl i'r Aifft, oherwydd y mae pawb oedd yn ceisio dy ladd bellach wedi marw." ²⁰ Felly, cymerodd Moses ei wraig a'i feibion, a'u gosod ar asyn a mynd yn ôl i wlad yr Aifft, â gwialen Duw yn ei law. ²¹ Dywedodd yr ARGLWYDD wrth Moses, "Wedi iti dychwelyd i'r Aifft, rhaid iti wneud o flaen Pharo yr holl ryfeddodau a roddais yn dy allu; ond byddaf yn caledu ei galon ac ni fydd yn gollwng y bobl yn rhydd. ²² Llefara wrth Pharo, 'Dyma a ddywed yr ARGLWYDD: Israel yw fy mab cyntafanedig, ²³ ac yr wyf yn dweud wrthynt am ollwng fy mab yn rhydd er mwyn iddo f'addoli, ond gwrthodaist ei ollwng yn rhydd, felly fe laddaf dy fab cyntafanedig di.'"

²⁴ Mewn llety ar y ffordd, cyfarfu'r ARGLWYDD â Moses a cheisio'i ladd. ²⁵ Ond cymerodd Seffora gyllell finio a thorri blaengroen ei mab a'i fwrw i gyffwrdd â thraed Moses, a dweud, "Yr wyt yn briod imi trwy waed." ²⁶ Yna gadawodd yr ARGLWYDD lonydd iddo. Dyna'r adeg y dywedodd hi, "Yr wyt yn briod trwy waed oherwydd yr enwaedu."

²⁷ Dywedodd yr ARGLWYDD wrth Aaron, "Dos i'r anialwch i gyfarfod â Moses." Aeth yntau, a chyfarfod ag ef wrth fynydd Duw a'i gusanu. ²⁸ Adroddodd Moses wrth Aaron y cyfan yr oedd yr ARGLWYDD wedi ei anfon i'w ddweud, a'r holl arwyddion yr oedd wedi gorchymyn iddo eu gwneud. ²⁹ Yna aeth Moses ac Aaron i gynnull ynghyd holl henuriaid pobl Israel, ³⁰ a dywedodd Aaron

wrthynt y cyfan yr oedd yr ARGLWYDD wedi ei ddweud wrth Moses; a gwnaeth yr arwyddion yng ngŵydd y bobl.³¹ Credodd y bobl, a phan glywsant fod yr ARGLWYDD wedi ymweld â phobl Israel a'i fod wedi edrych ar eu hadfyd, bu iddynt ymgrymu i lawr ac addoli.

Moses ac Aaron gerbron Pharo

5 Yna aeth Moses ac Aaron at Pharo a dweud, "Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD, Duw Israel: 'Gollwng fy mhobl yn rhydd er mwyn iddynt gadw gŵyl i mi yn yr anialwch.'" ² Dywedodd Pharo, "Pwy yw yr ARGLWYDD? Pam y dylwn i ufuddhau iddo a gollwng Israel yn rhydd? Nid wyf yn adnabod yr ARGLWYDD, ac felly nid wyf am ollwng Israel yn rhydd."³ Yna dywedasant, "Y mae Duw'r Hebreaid wedi cyfarfod â ni. Gad inni fynd daith dridiau i'r anialwch i aberthu i'r ARGLWYDD, ein Duw, rhag iddo ein taro â haint neu â chleddyf."⁴ Ond dywedodd brenin yr Aifft wrthynt, "Moses ac Aaron, pam yr ydych yn denu'r bobl oddi wrth eu gwaith? Ewch yn ôl at eich gorchwylion."⁵ Dywedodd Pharo hefyd, "Edrychwch, y maent erbyn hyn yn fwy niferus na thrigolion y wlad*, ac yr ydych chi am atal eu gorchwylion!"⁶ Y diwrnod hwnnw, rhoddodd Pharo orchymyn i feistri gwaith y bobl a'u swyddogion,⁷ "Peidiwch â rhoi gwellt mwyach i'r bobl i wneud priddfeini; gadewch iddynt fynd a chasglu gwellt iddynt eu hunain."⁸ Ond gofalwch eu bod yn cynhyrchu'r un nifer o briddfeini â chynt, a pheidiwch â lleihau'r nifer iddynt. Y maent yn ddiog, a dyna pam y maent yn gweiddi am gael mynd i aberthu i'w Duw.⁹ Gwnewch y gwaith yn drymach i'r bobl er mwyn iddynt ddal ati i weithio, a pheidiwch â gwrando ar eu celwydd."

¹⁰ Aeth meistri gwaith a swyddogion y bobl allan a dweud wrthynt, "Fel hyn y dywed Pharo: ¹¹ 'Nid wyf am roi gwellt i chwi mwyach, ond rhaid i chwi eich hunain fynd i geisio gwellt ym mha le bynnag y gallwch ei gael; er hynny, ni

fydd dim cwtogi ar eich cynnyrch.'"¹² Felly, bu raid i'r bobl grwydro trwy holl wlad yr Aifft a chasglu sofr yn lle gwellt.¹³ Yr oedd y meistri gwaith yn pwysu arnynt gan ddweud, "Gorffennwch y gwaith ar gyfer pob dydd, yn union fel yr oeddech pan oedd gennych wellt."¹⁴ Cafodd y swyddogion a benodwyd gan feistri gwaith Pharo i oruchwyllo'r Israeliaid eu curo a'u holi, "Pam na wnaethoch eich dogn o briddfeini heddiw fel cynt?"

¹⁵ Yna daeth swyddogion yr Israeliaid â'u cwyn at Pharo, a dweud, "Pam yr wyt yn trin dy weision fel hyn?"¹⁶ Nid oes dim gwellt yn cael ei roi i'th weision, ac eto maent yn dweud wrthym am wneud priddfeini! Y mae dy weision yn cael eu curo, ond ar dy bobl di y mae'r bai."¹⁷ Dywedodd yntau, "Am eich bod mor ddiog yr ydych yn dweud, 'Gad inni fynd i aberthu i'r ARGLWYDD.'" ¹⁸ Yn awr, ewch ymlaen â'ch gwaith; ac er na roddir gwellt i chwi mwyach, bydd raid i chwi gynhyrchu'r un nifer o briddfeini â chynt."¹⁹ Pan ddywedwyd nad oeddent i leihau'r nifer o briddfeini oedd i'w cynhyrchu mewn diwrnod, gwelodd swyddogion yr Israeliaid eu bod mewn helynt.²⁰ Wedi iddynt ymadael â Pharo, daeth Moses ac Aaron i'w cyfarfod,²¹ a dywedodd y swyddogion wrthynt, "Boed i'r ARGLWYDD edrych arnoch a'ch barnu, am ichwi ein gwneud yn ffaithd yng ngolwg Pharo a'i weision, a rhoi cleddyf iddynt i'n lladd."

Moses yn Cwyno gerbron yr ARGLWYDD

²² Aeth Moses yn ôl at yr ARGLWYDD a dweud, "O ARGLWYDD, pam yr wyt wedi peri'r fath helynt i'r bobl hyn? A pham yr anfoneist fi?" ²³ Oherwydd er pan ddeutham at Pharo a llefaru yn dy enw, y mae wedi gwneud drwg i'r bobl hyn, ac nid wyt ti wedi gwneud dim o gwbl i achub eu cam."

6 Yna dywedodd yr ARGLWYDD wrth Moses, "Cei weld yn awr beth a wnaf i Pharo; â llaw nerthol bydd yn gollwng y bobl yn rhydd, a'u gyrru ymaith o'i wlad."